OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 575 (Cy. 133)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Chyflasynnau Mwg (Addasu Awdurdodiadau) (Cymru) 2022

*Gwnaed - - - - 24 Mai 2022*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - - 27 Mai 2022*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 12(1) a 32A(3) o, ac yn unol ag Erthyglau 9 a 27(1) o, Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd(**1**); ac Erthygl 11(4) o Reoliad (EC) Rhif 2065/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir iddynt gael eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) EUR 2015/2283; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/702 a 2020/1504. Mae'r termau "prescribe", "appropriate authority" a "list" wedi eu diffinio yn Erthygl 3 o Reoliad 2015/2283.

(**2**) EUR 2065/2003; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/860 a 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 3 o Reoliad 2065/2003.

(**3**) EUR 178/2002; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/641 a 2020/1504.